OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 5

GRANTIAU AT GOSTAU BYW

**Grantiau ar gyfer dibynyddion — grant dibynyddion mewn oed**

**26.**—(1) Mae gan fyfyriwr cymwys hawl i gael grant dibynyddion mewn oed mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r grant dibynyddion mewn oed ar gael mewn perthynas â un dibynnydd i fyfyriwr cymwys sydd naill ai —

(a) yn bartner i'r myfyriwr cymwys; neu

(b) yn ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr cymwys nad yw ei incwm net yn fwy na £3,705.

(3) Mae swm y grant dibynyddion mewn oed sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 29, a'r swm sylfaenol yw —

(a) £2,580; neu

(b) os yw'r person y mae'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais mewn perthynas ag ef am grant dibynyddion mewn oed yn preswylio fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, unrhyw swm nad yw'n fwy na £2,580 sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.